

# DOLEN Y TAB – 22

## 18–19 Medi 2020

### \*\*OEDFA DYDD SUL 20 MEDI\*\*

Dan ofal Iwan Rowlands

#### 27 Medi

*Y Parchg. Gethin Rhys.*

#### 4 Hydref

*Oedfa Bentref.*

#### 11 Hydref

*Oedfa Diolchgarwch yng ngofal  
Huw, Beth a Wendy.*

#### Cofiwch hefyd am . . .

- **12.00** Oedfa Radio Cymru
- **12.30** Rhaglen radio *Bwrw Golwg* gyda John Roberts
- **10.30 ymlaen**  
Oedfa Ddigidol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg  
Y Parchg. Jill-Hayley Harries.
- **E-fwletin Cristnogaeth21** newydd i'w weld ar eu gwefan bob bore Sul  
[www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru) .

### OEDFAON AR-LEIN

Os oes unrhyw un yn barod i gymryd gofal am **olygu oedfa** cysylltwch ag:

Emlyn ([emlyn.pentyrch@btinternet.com](mailto:emlyn.pentyrch@btinternet.com) / 02920 891344), neu Geraint ([geraintrees@hotmail.com](mailto:geraintrees@hotmail.com) / 07816 341527)

Hefyd, os oes yna deulu neu unigolion fyddai'n hoffi **cyfrannu at oedfa ar-lein** byddai Emlyn a Geraint yn falch o glywed gennych.

### Dymuniadau Gorau

Estynnwn ein dymuniadau gorau a gwellhad buan i Ann Rees, Penywaun, sydd yn derbyn gofal yn Ysbyty Merthyr Tudful ar hyn o bryd.

### ELUSENNAU 2020

Ar waetha'r clo a'r cyfyngiadau, fe hedfanodd y flwyddyn heibio a dyma ni unwaith eto â chwta dri mis ar ôl i lenwi'r amlenni brown a rhannu eu cynnwys rhwng pedair o elusennau lleol. Pedair yn hytrach na phump eleni, gan i siop Adref gau ei drysau ar ddechrau'r flwyddyn.

Mae'r casgliad hwn wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd, a'r llynedd cyflwynwyd £525 yr un i'r elusennau. Mae swm fel hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr ar lefel leol. Bydd y casgliad yn dilyn yr un drefn â chasgliadau eraill eleni, sef:

Anfon sic eic yn daladwy i Capel y Tabernacl Cyf, gan nodi 'Elusennau 2020', at:

Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd,  
39 Parc Bryn Derwen, Llanharan,  
Pontyclun CF72 9TU

neu

Trwy drosglwyddiad banc:

Cod didoli 30-96-72  
Rhif cyfrif 03607499  
gan gynnwys eich enw a nodi  
'Elusennau 2020'.

Dros yr wythnosau nesaf, bydd gwybodaeth am elusennau eleni yn ymddangos yn y Ddolen ac ar wefan y capel [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org) gan ddechrau'r wythnos hon gyda:

### GOFALWYR IFANC RHONDDA CYNON TAF

Mae'r prosiect hwn yn ceisio adfer ychydig o'u plentyndod i blant sydd wedi gorfod tyfu i fyny yn llawer rhy gyflym oherwydd anawsterau teuluol sy'n eu gorfodi i ofalu am riant, brawd neu chwaer gydag anabledd neu waeledd. Darperir cefnogaeth un i un, gweithgareddau grŵp, a chysylltu â gweithgareddau cymunedol. Ar ben hyn, trefnir gweithdai ac egwyl preswyl, er mwyn lleddfu ychydig ar faich ysgwyddau ifanc a dod â rhywfaint o normalrwydd plentyndod i'w bywydau.

## AROLWG

Mae'n debyg mai Harold Wilson oedd y cyntaf i lefaru'r geiriau bod wythnos yn amser hir mewn gwleidyddiaeth. Mae'r ymadrodd yr un mor addas i ddisgrifio'r datblygiadau a gafwyd yn ystod yr wythnos aeth heibio yn sgil lledaeniad brawychus y pandemig COVID-19 yn ardal RhCT.

Fel y crybwyllwyd yn rhifyn yr wythnos ddiwethaf, mae'r Bwrdd eisoes wedi dechrau ar y dasg o gynnal ymarferiad i benderfynu pryd ac o dan ba amgylchiadau y medrwn ddychwelyd i'r Tabernacl unwaith yn rhagor. Fel rhan o'r ymarferiad, cytunwyd i drefnu arolwg i weld pa groeso fyddai ymhlith yr aelodau i ail-agor.

Yn dilyn cyhoeddiadau pwysig Llywodraeth Cymru fore Llun a bore Mercher, cafwyd sicrwydd nad oes unrhyw newid yn yr hawl i agor drysau'r Tabernacl i gyd-addoli unwaith yn rhagor, ac mae amgyffred cliriach gennym o'r amodau fydd angen eu dilyn wrth drefnu oedfa. Ond prif effaith gosod cyfnod clo lleol yn RhCT dros y pythefnos nesaf, cyn cynnal adolygiad pellach, i ni yn y Tabernacl yw **NA FYDD** hawl gan aelodau sy'n byw yn y Creigiau, Pentyrch a lleoliadau eraill y tu hwnt i ffiniau'r sir i fynychu'r oedfaon.

Serch hynny, gan fod ymarferiad y Bwrdd yn ceisio edrych y tu hwnt i'r cyfyngiadau'r clo lleol dros dro, mae'r arolwg am i chi anwybyddu'r rhwystr hwn gan feddwl am eich dymuniadau dros gyfnod hirach o amser (misoedd yn hytrach nag wythnosau). Wedi i chi gael cyfle dros y Sul i ystyried arwyddocâd yr amodau isod ar natur yr oedfaon y mae hawl gennym i'w cynnal, byddwn yn anfon holiadur mewn e-bost atoch (neu'ch ffonio, os nad oes cyfrif e-bost gennych), i gynorthwyo'r Bwrdd wrth bwysu a mesur y ffordd orau ymlaen.

### Y Prif Amodau i'r Gynulleidfa

- Bydd angen rhoi gwybod ymlaen llaw o'ch bwriad i fynychu'r cwrdd gan mai rhwng tua 40–50 all fynychu cwrdd ar y tro, a bydd angen cadw cofnod cyswllt o bawb sy'n bresennol;
- Cyn cyrraedd drws y capel bydd raid cadw pellter o 2 fetr rhwng pob un arall, ac eithrio aelodau o'ch uned deuluol, wrth aros eich tro i fynd i mewn;
- Cyn croesi trothwy'r capel bydd raid i chi wisgo gorchudd wyneb (os nad ydych yn perthyn i un o'r categorïau gaiff eu heithrio) a'i gadw ymlaen hyd nes y byddwch wedi gadael yr adeilad;
- Yn y cyntedd gofynnir i chi ddiheintio eich dwylo cyn cael eich tywys gan stiward i sedd wedi ei chlustnodi'n arbennig i sicrhau pellter o 2 fetr. Ar y diwedd bydd y stiwardiaid yn eich tywys allan;
- Cofiwch na chaniateir canu na chyd-ddarllen.

## PRIF GYFRIFOLDEBAU'R CYFARWYDDWYR

- Cynnal Asesiad Risg o'r adeilad gan nodi a chofnodi unrhyw beryglon er mwyn sicrhau bod y capel mewn cyflwr diogel;
- Hysbysu'r aelodau o'r canllawiau y bydd raid eu dilyn os am fynychu oedfa;
- Darparu arwyddion a phosteri pwrpasol i atgoffa pawb i gadw pellter o 2 fetr y tu allan a'r tu mewn i'r capel, a pha lwybr i'w ddilyn;
- Trefnu system i dderbyn a chadarnhau ceisiadau am sedd(au) yn yr oedfa;
- Glanhau'r adeilad yn drylwyr rhwng pob oedfa;

### DALIER SYLW

*Does dim angen i chi ateb y cwestiynau isod ar hyn o bryd gan y byddwn yn anfon neges e-bost (neu'n eich ffonio os nad oes cyfrif e-bost gennych) yn eich gwahodd i ymateb fel unigolyn, pâr neu deulu.*

### CWESTIYNAU'R AROLWG

1. Yng ngoleuni amodau diweddaraf Llywodraeth Cymru, a fyddech yn croesawu medru **mynychu** oedfa yn y Tabernacl?
  - a) Byddwn;
  - b) Na fyddwn;
  - c) Ddim yn gwybod.
2. Os mai a) oedd eich ateb i **Gwestiwn 1**, a fyddech hefyd yn barod **i gymryd rhan** mewn oedfa dan yr un amodau?
  - a) Byddwn;
  - b) Na fyddwn;
  - c) Ddim yn gwybod.
3. Os mai b) neu c) oedd eich ateb i **Gwestiwn 1**, pa amod(au) fyddech chi am eu gweld yn cael eu llacio cyn **mynychu** oedfaon?
  - i. Dim angen gwisgo gorchudd wyneb;
  - ii. Lleihau'r ymbellhau i 1 metr;
  - iii. Caniatáu canu cynulleidfaol;
  - iv. Caniatáu cyd-lefaru;
  - v. Dim angen bwcio sedd ymlaen llaw.
4. Pa mor hapus ydych chi i barhau gyda'r oedfaon rhithiol presennol?
  - a. Hapus iawn;
  - b. Hapus;
  - c. Anhapus.

Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** a sefydlwyd yn ystod y cyfnod clo i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i aelodau'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org).

Anfonwch unrhyw newyddion sydd gennych i'w rhannu erbyn nos lau yn wythnosol i: [gehpenqwert@yahoo.co.uk](mailto:gehpenqwert@yahoo.co.uk) / 07710 237327 / 01443 225205.